WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyflwyno: 14 Rhagfyr 2017

Cymhorthdal Cwmni Hedfan

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 30 Tachwedd 2017 i ofyn am wybodaeth ynghylch y swm a gafodd ei wario i roi cymhorthdal i wasanaeth awyr Caerdydd/Ynys Môn.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiwn isod a nodi ein hateb cyfatebol.

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a wnewch chi ddweud wrthyf faint o arian sy'n cael ei wario'n flynyddol i roi cymhorthdal i wasanaeth awyr Caerdydd/Ynys Môn os gwelwch yn dda?

Rydym ni'n cadw rhywfaint o wybodaeth ynghylch y costau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn o 2007-08 hyd at 2012-13 ac maen nhw i'w gweld mewn memorandwm ar y gwasanaeth awyr a gafodd ei gyhoeddi gennym ni ym mis Ionawr 2014. Mae'r memorandwm ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: :https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/gwasanaeth-awyr-oddi-mewn-i-gymru-%E2%80%93-caerdydd-i-ynys-m%C3%B4n-memorandwm-ar-gyfer-y-pwyllgor Felly o ganlyniad mae'r wybodaeth hon yn weddol hygyrch ichi drwy ffyrdd eraill ac wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Efallai y byddai diddordeb gennych mewn ymchwiliad blaenorol gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a ddilynodd cyhoeddiad ein memorandwm, ac mae'r manylion ar gael yma: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8697

Rydym ni'n ymwybodol fod ymateb o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2016 yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ynghylch y gwariant blynyddol gan Lywodraeth Cymru ar y gwasanaeth awyr hwn yn 2013-14, 2014-15, a 2015-16, ynghyd â nifer y teithwyr. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at y wybodaeth hon gennym, er mwyn rhoi gwybodaeth i sesiwn dystiolaeth bellach a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016, ac mae'r trawsgrifiad ar gael yn:
http://senedd.assembly.wales/documents/s56233/14%20November%202016.pdf
Mae ymateb y FOIA ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://gov.wales/docs/decisions/2016/transport/160901atisn10665lttr.pdf ac eto, gan fod y wybodaeth hon yn weddol hygyrch ichi drwy ffyrdd eraill y mae wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr Moeseg a'r Gyfraith, drwy e-bost: martin.peters@audit.wales neu drwy lythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan hon cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch pa un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Nodwch er hynny y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl y byddech chi wedi defnyddio ein gweithdrefnau cwynion mewnol yn drylwyr cyn iddo ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o gyngor ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir